# Tasg 2

**(Estynnol, sbardun 1)**

1. Gyda phartner, chwiliwch am un ffaith am bob pwynt bwled:

    - ffaith roeddech chi'n ei gwybod yn barod

      ..........................................................................................

    - ffaith sydd wedi eich synnu

      ..........................................................................................

    - y ffaith fwyaf diddorol

      ..........................................................................................

2. Pa un o'r gyrfaoedd sy'n apelio **fwyaf** atoch chi? Pam?
   Pa un o'r gyrfaoedd sy'n apelio **leiaf** atoch chi? Pam?

   Meddyliwch am rai brawddegau sy'n esbonio eich barn.

   e.e. Byddwn i'n hoffi masnachu ffasiwn achos rwy'n berson trefnus a byddwn i'n mwynhau rhoi pethau yn eu trefn mewn siop. Hefyd byddai'n ddiddorol gweld a oes mwy o ddillad yn cael eu gwerthu os ydych chi'n eu gosod nhw mewn mannau arbennig yn y siop, e.e. wrth y drws.

3. Mae'r geiriau **rhagweld**' a **cyfweld** yn y darn darllen. Dyma nhw yn y tabl isod, gyda rhagor o eiriau **....weld**. Cysylltwch y gair â'r diffiniad cywir. Yna, defnyddiwch **dri** o'r geiriau mewn brawddegau.

| **Gair '..... weld'** | **Diffiniad** |
|---|---|
| 1. rhagweld | a. mynd i weld rhywun |
| 2. cyfweld | b. cytuno â rhywun, gweld yr un ffordd â rhywun arall |
| 3. ymweld | c. edrych ymlaen a gweld beth sy'n debyg o ddigwydd |
| 4. cydweld | ch. anghytuno â rhywun, gweld yn wahanol i rywun arall |
| 5. anghydweld | d. siarad â rhywun i gael eu barn neu i gael gwybod eu hanes |